

Hysbysiad Hawlfraint

Dyma atgoffa staff a myfyrwyr y Brifysgol hwn fod hawlfraint yn gymwys ar y darn hwn ac ar y gwaith y mae'n dod ohono. Gwnaed y Copi Digidol hwn yn unol â thelerau Trwydded yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint, sy'n golygu eich bod yn cael:

- Gweld a lawr lwytho copi
- Argraffu copi

Mae'r Copi Digidol hwn ac unrhyw gopi digidol neu argraffedig a roddir ichi neu a wnaed gennych yn ôl telerau'r Drwydded hon i'w ddefnyddio yng nghyd-destun y modiwl hwn neu'r cwrs astudio hwn. Cewch gadw'r copïau hyn ar ddiwedd y cwrs, ond dim ond at eich defnydd eich hun.

Rhaid i bob copi (gan gynnwys copïau electronig) gynnwys yr Hysbysiad Hawlfraint hwn a rhaid iddynt gael eu dinistrio neu eu dileu os bydd y Brifysgol yn gofyn ichi wneud hynny.

Ac eithrio'r hyn sy'n dderbyniol yn ôl darpariaethau cyfraith hawlfraint, ni cheir copïo, cadw na dosbarthu (gan gynnwys dosbarthu drwy e-bost) heb ganiatâd y sawl sy'n dal yr hawlfraint.

Mae gan yr awdur (ymadrodd sy'n cynnwys arlunydd a'r sawl sy'n creu gweithiau gweledol eraill) hawliau moesol ar y gwaith ac ni chaiff staff na myfyrwyr achosi na chaniatáu i'r gwaith gael ei anffurfio, ei lurgunio na'i addasu fel arall, na'i drin mewn unrhyw fodd difriol arall, a fyddai'n gwneud cam ag anrhydedd neu enw da'r awdur.

Teitl y darn: **Annwn, y Byd Arall**

Enw'r Awdur: **Thomas, G.**

Teitl/Awdur/Argraffiad y llyfr (os yw'n berthnasol): **Gair am Air. Thomas, G**

Enw Crëwr Gwaith Gweledol neu
gydnabyddiaeth arall (os yw'n berthnasol):

Manylion cyfnodolyn -
teitl/Cyfrol/Blwyddyn (os yw'n berthnasol):

Cyhoeddwr: **Gwasg Prifysgol Cymru**

Tudalennau a sganiwyd: **21 - 39**

Cwrs Astudio (Enw a rhif y modiwl): **Y Mabinogi CYCS7015C**

Enw'r sawl a awdurdododd
y sganio:

Dyddiad y rhoddwyd awdurdod: 08.08.13

Moodle/Powerpoint

E.L. Harris

Annwn, y Byd Arall

Y mae chwedlau a hanesion am deithiau'n hen iawn. Yn niwylliant y gorllewin y mae *Odusseia* Homer, a chrwydro'r Israeliaid yn yr anialwch wedi ymsefydlu'n gadarn ddigon, hyd yn ddiweddar o leiaf. Y mae'r daith yn ymchwil am bethau newydd a phrofiadau newydd. Y mae hi, hefyd, yn ddull i'r teithiwr ddod i'w adnabod ei hun. Fe all y daith allanol fod yn bererindod fewnol. Felly, wrth grwydro am ddeugain mlynedd mewn anialwch y dylen' nhw fod wedi ei groesi mewn cyfran fach o'r amser yr oedd yr Israeliaid yn dod i'w hadnabod eu hunain, ac yn dod wyneb yn wyneb â gwirioneddau am eu bywyd fel cenedl. Un o nodweddion yr hyn a elwir yn gyfnod diweddar mewn hanes ydi'r teithio a estynnodd amgyffrediad dyn o'r byd yr oedd o arno, a'r bobloedd gwahanol a oedd yn bod ar ei wyneb o. Er, gwaetha'r modd, yr hyn a gafwyd yn aml gan deithwyr o Ewrop oedd ymgais i osod eu patrymau eu hunain o fyw ac o gredu ar bob pobloedd, gyda chanlyniadau gwaradwyddus yn aml. Ond fe ddefnyddiwyd y daith hefyd fel dull o feirniadu Ewrop 'wareiddiedig' mewn amryw o deithiau dychmygol yn Lloegr a Ffrainc yn fwyaf arbennig, a datblygodd y syniad o'r 'anwar anrhydeddus' (*noble savage*) a gadwai, yn ei anwarineb, werthoedd a rhinweddau yr oedd cenhedloedd gwâr wedi eu colli. Yn ein canrif ni, y mae'r teithio hwn wedi ymestyn i'r gofod, yn llythrennol i ryw raddau, ac i raddau helaeth iawn yn y dychmyg. Yn wir, y mae teithiau i'r gofod, fel nifer fawr o bethau eraill, yn dechrau yn y dychmyg. Dros y canrifoedd y mae ffiniau dyn wedi ymestyn ac ymestyn, ond y mae un terfyn sydd mor anhysbys heddiw ag y bu o erioed, sef terfyn einioes. Dros y terfyn hwn y mae'r wlad nad oes dychwelyd ohoni: 'The undiscovered country, from whose bourn/No traveller returns', chwedl Hamlet (III.i.79-80). Dyma'r terfyn lle y mae'r daith i'r Byd Arall yn dechrau. Y mae rhai wedi honni, yn ormodol yn ddiamau, mai hanes y daith hon ydi'r stori fwyaf sylfaenol o bob stori - 'the matrix of all narratives' (Carlo Ginzburg).

Y mae un o gynhyrchion cynharaf dynion, yr hyn a gamenwir yn 'Llyfr y Meirwon', sef casgliad o eiriau swyn ac ymbiliadau a lluniau a roddid, o tua 1600 cc ymlaen, ym meddrodau'r rheini, yn yr Aifft, a allai eu fforddio. Yr oeddent i fod i hwyluso taith yr ymadawedig i'r Byd Arall. Yn ein dyddiau ni, daeth rhai seicolegwyr i ystyried y daith hon, taith meirwon yr Aifft, nid fel taith allanol ond fel taith symbolaidd, taith fewnol i'r anymwybod. Ar hyd yr oesoedd bu diddordeb mawr mewn uffern a nefoedd, yn enwedig mewn uffern; y mae corff enfawr o lenyddiaeth ac arlunwaith wedi trafod y pwnc. Y mae'r hen ddisgrifiadau nodweddiadol o uffern wedi darford i raddau helaeth rŵan, ond y mae diddordeb pobol yn y daith olaf yn para o hyd, y mae'r ysfa i wybod yr hyn na ellir ei wybod mor gryf ag erioed. Yn lled ddiweddar fe dyfodd diddordeb mawr iawn mewn 'profiadau agos-at-farw' fel y'u gelwir. Ysgrifennwyd llawer o lyfrau ar y pwnc, rhai poblogaidd a rhai gwyddonol, a bellach y mae ffilmiau ar y pwnc wedi dechrau ymddangos – un enghraifft led ddiweddar yw *Flatliners*.

Y mae yna batrymau yn y 'profiadau agos-at-farw' hyn. Profiadau pobol a ddaeth o fewn dim i golli eu bywydau ac a adferwyd ydyn' nhw. Y peth cyntaf sy'n digwydd ydi fod yr un sy'n cael y profiad un ai mewn damwain, neu mewn ysbyty'n cael triniaeth. Fel arfer, y mae ei galon yn stopio am ryw hyd. Yn ystod yr amser hwnnw y mae'r hanner-ymadawedig yn ei weld ei hun, y mae'r 'myfi' hanfodol – yr enaid os mynnwch chwi – yn gadael cragen ei gorff ac yn hofran uwch ei ben yn edrych i lawr arno. Y mae'r rhai a gafodd y profiad yn gallu gweld eu cyrff eu hunain yn wrthrychol, ac ar ôl cael eu hadfer y maen' nhw'n medru rhoi cyfrif rhyfeddol o gywir o'r hyn a ddigwyddodd iddynt tra oedden' nhw'n anymwybodol. Dyma ichwi eiriau un gŵr am y profiad hwn: 'Roeddwn i fel pe bawn i'n hofran . . . ac fe'm gwelais i fy hun yn gorwedd yno [sef, ar fwrdd llawdriniaeth mewn ysbyty].'¹ Y mae amryw o'r bobol sy'n honni iddynt gael y profiad yn dweud eu bod nhw fel pe baent yn cychwyn ar daith am y Byd Arall. Y mae mynd trwy dwnel neu bibell o dywyllwch yn dra chyffredin: 'Yna fe es i i dwnel. 'Roeddwn i'n teimlo fel pe bawn i mewn twnel a hwnnw'n troi, twnel du. Dim ond tywyllwch.'² Yn ôl amryw dystiolaethau y mae rhyw oleuni'n ymddangos ym mhen draw'r twnel neu'r bibell: 'Ym mhen draw'r tywyllwch roedd yna olau gloyw. Roedd o'n edrych fel oren . . .'³ Dyma dystiolaeth arall: 'Fe holltodd y byd . . . roedd

popeth yn arian . . . fel diemwntau a sêr.'⁴ Yn ôl llawer o'r tystion 'roedden' nhw'n teimlo mai goleuni o gariad pur oedd hwn ac na ellir ei ddisgrifio mewn geiriau. Y mae wynebaw cyfarwydd, wynebaw rhai meirwon i'w gweld yn y lle y mae'r goleuni: 'Yno roedd fy holl berthnasau, fy nain, fy nhaid, fy nhad, fy ewyrth . . . Daethant ataf fi i 'nghyfarch.'⁵ Yna, y mae yna ddychwelyd, yn groes i'r ewyllys, i'r tywyllwch eto, ac i'r corff eto.

Y mae yna amryw gyfatebiaethau rhwng y profiadau hyn a gwahanol ddisgrifiadau o'r daith i'r Byd Arall, ond 'awn ni ddim ar ôl y rheini'n benodol, nac ychwaith ar ôl amryw esboniadau a gynigiwyd ar y ffenomenâu hyn. Y mae elfennau hysbys mewn hen weledigaethau o'r Byd Arall a hen chwedlau sy'n sôn am y byd hwnnw gyda ni o hyd. Y maen' nhw'n dal gyda ni am eu bod nhw'n sôn am ddirgelwch nad oes datrys arno.

'Rydwi i wedi sôn am y Byd Arall a'i gysylltu o â marwolaeth. Y mae hynny'n naturiol i rai o gefndir Cristnogol. Y mae'n siŵr gen i fod syniadau llawer ohonom ni, hyd yn oed heddiw, wedi eu lliwio gan fagwraeth Gristnogol o ryw fath. Oherwydd hyn y mae'r Byd Arall yr ochor draw i angau, ac yn debygol o ddwyn nefoedd ac uffern i'r meddwl.

A bod dynion a merched yr hyn ydyn' nhw, efallai nad ydi hi'n syndod inni ddeall fod yna lawer iawn mwy o weithiau'n sôn am uffern nag sydd yna'n sôn am y nefoedd a, thros y canrif-oedd, y mae rhai wedi mynd i hwyl wrth ddisgrifio'r amrywiol erchyllterau sy'n disgwyl eneidiau'r colledig yn uffern. Ond 'dydi pawb ddim wedi synied yr un fath am ochor draw marwolaeth ac, yn wir, 'dydi pawb ddim wedi meddwl am y Byd Arall fel lle sydd yn gysylltiedig â marwolaeth.

Dowch inni fwrw golwg ar syniadau'r Celtiaid am farwolaeth a'r Byd Arall. Fe fyddwn ni'n sôn, i ryw raddau, am syniadau llwythau tua dwy fil o flynyddoedd yn ôl a mwy, er bod olynwyr y rhain – yn Gymry, Gwyddelod, Sgotiaid ac ati – fe ymddengys, wedi etifeddu rhai o'u syniadau, am gyfnodau, o leiaf. Y mae olion y syniadau hyn i'w cael, fel yr awgrymwyd yn yr ysgrif gyntaf, yng nghredoau neu ofergoelion, rhai chwedlau, ac arferion y cenhedloedd hyn. Ceir peth tystiolaeth am rai o gredoau'r Celtiaid mewn gweithiau gan rai o ysgrifenywyr Groeg a Rhufain, ond 'dydi eu tystiolaeth nhw ddim yn dystiolaeth o'r radd flaenaf, o bell ffordd, am fod yna adrodd yr hyn a glywyd gan eraill, camddeall pethau, camliwio pethau ac, yn enwedig, ddehongli pethau trwy eu credoau eu hunain. Y mae tystiolaeth archaeolegol

yn fuddiol iawn i'w defnyddio gyda thystiolaeth yr ysgrifenywyr hyn, os yw'r fath dystiolaeth ar gael.

Ar ôl y rhybudd arferol yna, fe drown ni at un neu ddau o awduron clasurol ac at ddyfyniadau tra chyfarwydd yn y maes. Dyna inni Iŵl Cesar yn sôn am y Celtiaid yng Ngâl. Wrth sôn am y derwyddon y mae o'n dweud hyn: 'Y brif ddysgeidiaeth y maent hwy'n amcanu ei dysgu yw'r un nad yw eneidiau'n marw, ond eu bod – ar ôl marwolaeth – yn mynd o un i'r llall...'⁶ Hynny ydi, yr awgrym sydd yma ydi fod person yn marw ac yna'n dod yn ei ôl ar ffurf arall. Ychwanega Cesar fod y gred hon yn gynhaliath i ryfelwyr y Galiad: 'roedden' nhw'n ynfyd o ddewr am y rheswm nad oedden' nhw'n credu eu bod am gael eu lladd am byth. Ceir awgrym nad marwolaeth ydi'r diwedd i'r Celtiaid hefyd mewn darn gan ysgrifennwr Groeg o'r enw Lucan; cyfarch y derwyddon y mae o yn y darn hwn:

Chwychwi sy'n dweud nad yw drychiolaethau'r meirwon yn mynd i deyrnas ddistaw Erebus a dyfnderoedd gwelwon Dis [hynny ydi, y Byd Arall yn ôl y syniad clasurol ohono], ond bod yr ysbryd mewn corff newydd yn teyrnasu mewn byd arall, ac nad yw marwolaeth – os ydym ni'n deall eich emynau'n iawn [amod pwysig] – ond hanner y ffordd drwy fywyd hir...⁷

Y mae yna ryw fath o gadarnhad i gredoau fel hyn yn arfer y Celtiaid o gladdu eu gwŷr mawr a'u harfau a'u cerbydau gyda nhw a chyda chynhaliath o fwyd a diod ar gyfer y Byd Arall. Sylwer mai pobol bwysig y Celtiaid a gâi eu claddu fel hyn. Y mae rhywfaint o ateg i gredoau o'r fath, hefyd, yn yr hen chwedl am Daliesin a'r sôn ynnddi-am Daliesin yn newid ei ffurf o'r naill beth i'r llall. O olrhain y trawsffurfiadau hyn fe wnaeth Alwyn a Brinley Rees y sylw ei bod yn hollol bosibl fod yna, ymysg y Celtiaid fel ymysg pobol yn India a mannau eraill, ar un adeg ddysgeidiaeth mai un Trawsnewidydd oedd yna'n sylfaenol.⁸

Yn yr ysgrif gyntaf, fe awgrymwyd y gallai celfyddyd y Celtiaid fod yn dystiolaeth wir ddefnyddiol am ei bod hi'n rhyw fath o bresennol parhaol. Dro'n ôl, 1988, enillodd Mr John Meirion Morris radd M.Phil. Prifysgol Cymru am waith ar gelfyddyd y Celtiaid. Un o'i syniadau pwysig o ydi fod celfyddyd gynnar y Celtiaid yn dangos bywyd fel proses nad oes iddi na diwedd na dechrau; parhad ydyw. Awgrymu rhywbeth tebyg y mae'r ffaith fod i'r olwyn gymaint o bwysigrwydd symbolaidd iddyn' nhw – 'does yna na diwedd na dechrau i olwyn.

Un yn unig o symbolau pwysig y Celtiaid oedd yr olwyn. Dyna ichwi ystad symbolaidd eithriadol o rymus i'w dychymyg nhw oedd yr hyn y gellir ei galw yn 'ystad gydrhwng'. Y mae Alwyn a Brinley Rees wedi galw'r ystad yn ganolbwynt, neu 'ddim y naill beth na'r llall'.⁹ Y mae Jung yn galw sefyllfa fel hyn yn 'uno'r gwrthwyneb'; y mae hi'n ystad seicig ddelfrydol ac yn cynnwys pob math o bosibiliadau.¹⁰ Yr enghraifft glasurol ohoni yn ein chwedlau Cymraeg ydi'r un y cyfeiria'r brodyr Rees ati ym Mhedwaredd Gaiac y Mabinogi, sef uchafbwynt y cynllwyn rhwng Blodeuwedd a Gronw i ladd Lleu. Dyma sy'n digwydd i Leu. Er mwyn iddi fod yn bosibl i'w ladd, y mae'n rhaid iddo fod ar lan afon (afon Gynfael, yn y chwedl). Y mae afon yn hen, hen symbol o farwolaeth – dyna ichwi'r hen Iorddonen ddofn, ac afon Styx, er enghraifft. Felly y mae Lleu cydrhwng bywyd (tir) a marwolaeth (afon), ar y terfyn. Mae o ag un droed ar faddon (glendid) ac un droed ar gefn bwch gafr (arwydd o aflendid yn yr Oesoedd Canol, ac arwydd o rywioldeb rhemp) – dyna gydrhwng arall. Gan ei fod o'n sefyll ar y baddon hwn ac ar y bwch 'dydi o ddim ar y llawr, ond 'dydi o ddim yn hedfan yn yr awyr ychwaith; dyna ichwi ystad gydrhwng arall. Y mae'n rhaid cael cromglwyd, sef math o do uwch ei ben, felly 'dydi o ddim oddi mewn (i adeilad) ond 'dydi o ddim oddi allan ychwaith (mae ganddo do uwch ei ben), a dyna ichwi ystad gydrhwng arall. Fe welwn fod Lleu wedi ei osod mewn cyfres o 'ystadau cydrhwng'; o'r herwydd y mae'r posibilrwydd yna y gellir ei fwrw i'r Byd Arall, a dyna sy'n digwydd.

Hyd yn hyn yr ydym ni wedi sôn am y Byd Arall fel lle i fynd iddo ar ôl marw. A derbyn tystiolaeth llenyddiaeth Gymraeg gynnar a llenyddiaeth Wyddeleg gynnar 'doedd dim rhaid i rywun farw i fynd i'r Byd Arall. Yr hyn yr ydym ni'n ei gael gan Geltiaid yr Oesoedd Canol ydi cymysgedd braidd rhwng Byd Arall Celtaidd a Byd y Meirwon. Cymysgedd ydi hwn a gododd o dan ddylanwad disgrifiadau Cristnogion o Uffern a dylanwad rhai disgrifiadau o Hades, byd y meirwon, yn llenyddiaeth Groeg a Rhufain. Fel y soniwyd yn barod, lle o artaith ac enbydrwydd oedd yr Uffern Gristnogol a lle diflas iawn oedd Hades hefyd. Y mae'r bardd Lladin, Fyrsil, yn sôn am geg yr isfyd clasurol, fel hyn:

Ogof ddofn oedd yno'n agor yn agendor enfawr,
Yn sbentydd oll a than gysgod

Llyn du a llwyni tywyll,
A throsti nid ehedai dim asgellog yn ddianaf
Gan fod y fath wynt gwenwynig yn dyrchafu fry
I'r awyr grom o'i genau pyglyd hi.¹¹

Dyna ichwi awgrym go dda o beth sydd i ddod. 'Fuasai Hades mo'r lle difyrfa i fwrw'r Sul. 'Roedd yna le nid annhebyg yn nychmyg y Gwyddelod, lle tywyll, anghynnes dan lywodraeth Donn (Dwnn yn Gymraeg, sef yr un Tywyll). Yr oedd yna, fel y gwelwn ni, fodau digon annymunol ym Myd Arall y Cymry hefyd. Ond, at ei gilydd, tueddu i synied am y Byd Arall fel man dymunol y mae llenyddiaeth gynnar y Gwyddelod a'r Cymry.

Nid y Byd Arall oedd enw'r lle. 'Roedd iddo fo amryw enwau, a'r rheini'n dynodi gwahanol agweddau ar y fangre – fel y soniwn ni yn y man – ond prif enw'r Cymry arno oedd 'Annwn'. Bellach y mae Annwn – o dan ddylanwad y syniad o Uffern – wedi dod yn air yr ydym ni, ers canrifoedd, yn ei ddefnyddio am Uffern. Ond nid Uffern yr oedd o'n ei olygu'n wreiddiol. 'Annwn' oedd hen ffurf y gair, *an-* negydd, mae'n fwy na thebyg (er bod posibilrwydd ei fod yn golygu *i mewn*), a *dwfn*, sef byd. Dyma'r Na-fyd, sef rhywle nad ydi o ddim yn Fyd Yma. Fe gafwyd awgrymiadau eraill ei fod o'n fyd tanddaearol hefyd, ond y mae'r ffaith nad byd tanddaearol ydi Annwn yn awgrymu mai'r Na-Fyd sydd debycaf o fod yn gywir.

Yr oedd i hynafiaid ac i draddodiad – y ffordd yr oedd pethau wedi arfer cael eu gwneud – le pwysig yng nghrefydd y Celtiaid ac yn eu ffordd nhw o fyw (yr oedd yr un peth yn wir am bobloedd eraill hefyd). Y mae un ysgolhaig, Maartje Draak, wedi mynd mor bell â dweud: 'Mae'n amhosibl [iddyn' nhw, y Celtiaid] esbonio unrhyw drychineb fel Ewyllys Duw, neu Fympwy Duw; rhaid iddi fod yn ganlyniad rhyw weithred anhraddodiadol gan ryw fod dynol.' Ychwanega: 'Fedrwcw chwi ddim gweddio, 'fedrwcw chwi ddim cael maddeuant; yn y diwedd, un ffordd sydd yna o ddatrys pethau – hudoliaeth.'¹² Y mae hon yn farn go gref ond, yn sicr, y mae'r hyn y mae hi'n ei ddweud am hudoliaeth, neu swyngyfaredd, yn debyg o fod yn wir: o leiaf y mae i hudoliaeth le hynod o amlwg yn llên gynnar y Cymry a'r Gwyddelod. Gan ein bod ni wedi sôn am bedwaredd gainc y Mabinogi yn barod, fe gyfeiriwn ni at un enghraifft o'r chwedl honno. Ar ôl i Wydion beri rhyfel rhwng Gwynedd a Dyfed ac achosi lladd a difetha, daw pethau i ben tua'r Felen Rhyd, heb

fod ymhell o Faentwrog, trwy i Wydion a Phryderi, tywysog Dyfed, ymladd â'i gilydd. Dyma a ddywed y chwedl: 'Ac o nerth grym ac angerdd, a hud a lledrith, Gwydion a orfu, a Phryderi a las [laddwyd].'¹³ Un peth ydi gallu milwrol Gwydion, y peth arall – a'r peth eithriadol o bwysig – ydi nerth ei hud a'i lledrith. Y tebyg ydi fod y derwyddon, pan oedden' nhw, hefyd yn feistri ar yr hyn a ystyriai eu cymdeithas yn hud a lledrith. Hynny ydi, credid fod ganddyn' nhw ryw faint o ddealltwriaeth o alluoedd goruwchnaturiol y cread, rhywfaint o gyswllt – os mynnwch chwi – â'r bodau sydd, fel arfer, yn cael eu galw yn dduwiau. Yr oedd ganddyn' nhw gyswllt ag Annwn.

Fe edrychwn ni ymhellach i weld beth a ddywedir am Annwn yn y Mabinogi. Y mae yna beth sôn am Annwn yn y gainc gyntaf, 'Pwyll Pendefig Dyfed'. Un diwrnod y mae Pwyll allan yn hela ac yn cael ei wahanu oddi wrth ei gyfeillion. Y mae o'n dilyn carw, ond cyn i'w gŵn ddal y carw hwnnw y mae bytheiaid dieithr yn ei ddal o. Daw Pwyll at y carw, gyrru ymaith y cŵn dieithr a dechrau bwydo ei gŵn ei hun ar y cig. Rŵan, dyma ichwi weithred na ddylid ei gwneud, y mae hi'n groes i arfer dda, yn ansyberwyd. Fe gofiwch yr hyn a ddywedodd Draak am bwysigrwydd traddodiad, a gwneud yn ôl y defodau arferol. Trwy dorri'r arfer, yr hyn y mae Pwyll yn ei wneud ydi ei roi ei hun ar drugaredd y pwerau arallfydol. Y mae o mewn rhyw fath o ystad gydrhwng. Yna, daw'r marchog biau'r cŵn dieithr yno 'ar farch erchlas [brithlwyd] mawr'.¹⁴ Y mae hi'n mynd yn fater o gyfarch rhwng y ddau wedyn. Yr arfer oedd fod yr un lleiaf ei anrhydedd i fod i gyfarch yr un mwyaf ei anrhydedd i ddechrau. Y mae'r dieithryn yn gwrthod cyfarch Pwyll ac yn ei gwneud hi'n amlwg nad arfer gymdeithasol sy'n cyfrif am hynny. Y mae o am wneud Pwyll yn *ddyledus* iddo, a rhaid i Bwyll wneud rhywbeth iddo cyn y caiff ei *garennnydd*, ei 'gyfeillgarwch'. Wedi sicrhau dyled, y mae'r dieithryn yn dweud pwy ydi o, sef 'Arawn frenin o Annwn'. Sylwch, nid brenin Annwn – achos y mae yno frenin arall a hwnnw, sef un o'r enw Hafgan, yn elyn i Arawn. Y mae Arawn yn gofyn am gymorth Pwyll i'w drechu.

Y mae'r ddau'n cyfnwidd ymddangosiad, trwy hudoliaeth Arawn. Ac y mae Arawn yn hebrwng Pwyll hyd at ei lys: 'Ef [Arawn] a'i hebryngodd oni welodd y llys a'r cyfannedd.' 'Does yma ddim awgrym o fyd o dan y ddaear, ond 'does yma ychwaith ddim manylion daearyddol. Ond ymddengys fod Annwn o fewn cyrraedd i Lyn Cuch yn Nyfed; mewn cyrraedd, efallai, fel y mae

gwlad y tylwyth teg o fewn cyrraedd gwahanol leoedd. Y mae pethau yn Annwn i'w gweld yn weddol debyg i unrhyw deyrnas arall ond bod y llys yno'n well na 'holl lysoedd y ddaear' o ran bwyd a diod a llestri aur a thlysau gwerthfawr. Fe orchfyga Pwyll y brenin arall sydd yn Annwn, sef Hafgan, trwy ei daro unwaith, yn ôl cyfarwyddyd Arawn. Pe bai wedi taro Hafgan yr ail waith fe fyddai wedi cryfhau. Y mae yma awgrym fod pethau'n wahanol i bethau'r byd hwn yn hyn'na. Yn y man, fe ddeuir i adnabod Pwyll fel Pwyll Pen Annwn am iddo dreulio blwyddyn lwyddiannus yno. Daw o ac Arawn yn ffrindiau mawr a rhoi anrhegion i'w gilydd. Yn y bedwaredd gainc down i wybod fod mab Pwyll, sef Pryderi, yntau'n derbyn anrhegion o Annwn – fe dderbyniodd foch oddi yno, ac yr oedd y rheini'n anifeiliaid na ddaeth i'r ynys hon cyn hynny. Dyma inni un awgrym fod i foch ryw fath o gysylltiad arbennig ag Annwn. Fe gofiwch arbenigrwydd y mochyn fel anifail cwlt i'r Celtiaid.

Y mae Arawn yn cilio o'r chwedl. Ond y mae cysylltiad Pwyll â'r Byd Arall yn parhau. Y mae Pwyll a'i wŷr yn ei lys yn Arberth un diwrnod, ac y mae o a rhai ohonyn' nhw yn mynd i ben bryn, sef Gorsedd Arberth. Nid 'sedd brenin' ydi 'gorsedd' yma, ond 'bryn, twmpath', ac efallai 'beddrod'. Yn sicr y mae'n fan ag iddi ryw gysegredigrwydd. Dyma a ddywedir wrth Pwyll:

Cynneddf yr orsedd yw, – pa uchelwr bynnag wnaiff eistedd arni, 'aiff o ddim oddi yno heb i un o ddau beth ddigwydd, un ai fe gaiff niwed, neu fe welith e ryfeddod.¹⁵

Yma eto, fe welwn ni ddau beth gwrthwynebus, perygl neu ryfeddod. Y mae yma eto ystad gydrhwng, yr ystad o bosibiliadau. Y mae Pwyll yn mentro'i ffawd ac yn ei osod ei hun yn yr ystad gydrhwng, ac y mae'n gweld rhyfeddod: Y mae'n gweld gwraig 'ar farch canwelw [gwyn golau] mawr' (march mawr arall, sylwer) yn symud yn hamddenol. Dyma inni wraig o'r Byd Arall. Y mae'r un resymeg yn gweithio gyda hon â chyda Hafgan: y mae pethau o chwith. 'Dydi ei cheffyl hi ddim i'w weld yn newid ei gerdded ond y mae o'n amhosibl ei ddal; a pho gyflymaf y'i hymlidi, pellaf yn y byd y mae o oddi wrth ei ymlidydd. Yn y diwedd y mae'n rhaid i Bwyll ei chyfarch hi: 'A, forwyn . . . er mwyn y gŵr a geri fwyaf, aros amdana' i.' Sylwch ar y cyfarch hwn eto: efô sy'n ei chyfarch hi. Trwy hynny y mae o'n cydnabod ei goruchafiaeth, ar un olwg. Ar ôl y cyfarch y mae hi'n aros yn

syth. Rhiannon ydi hon, fersiwn ar yr hen dduwies feirch Epona – ac y mae yna ddigon o gysylltiadau rhwng Rhiannon a meirch yn y Pedair Cainc.

'Does arnaf fi ddim eisiau mynd trwy'r Mabinogi'n fanwl, ond y mae'n amlwg fod gan Riannon, yn y dechrau, bwerau goruwchnaturiol. Y mae hi'n gallach peth na Phwyll, ac yn gallu bod yn ddigon siarp efo'r hen greadur. Y mae hi'n ei achub o rhag ei gaffiau gwag. Ac at hyn y mae ganddi god hud, cwdyn na ellir byth ei lenwi. Y mae hi'n priodi gŵr o'i dewis ei hun, sef Pwyll, yn hytrach na'r gŵr o Annwn yr oedd hi i fod i'w briodi.

Ar ôl priodi Pwyll y mae Rhiannon – fel llawer cymar arall, ysywaeth! – yn colli ei hudoliaeth. 'Dyw'r pwerau goruwchnaturiol ddim ganddi mwyach. Nid yn unig hynny, y mae pwerau Annwn ar ei hôl hi. Yr oedd y farch-dduwies Epona'n dduwies ffrwythlondeb: gan mai fersiwn o honno ydi Rhiannon, gellid disgwyl iddi hi fod yn ffrwythlon. Nid felly. Am flynydd-oedd y mae hi'n methu cael plentyn. A phan gaiff hi un, y mae o'n cael ei ddwyn oddi arni hi'r noson gyntaf. 'Does dim esboniad am y diflaniad hwn yn y chwedl. Ond fe gysylltir y peth â digwyddiad arall ar nos Galan Mai. Y mae nos Galan Mai, fel nos Galan Gaeaf, yn un o'r nosau pan fydd dau beth yn cyfarfod, gaeaf a haf. Y mae'r noson yn enghraifft o'r ystad gydrhwng, yn noson pan yw'r ffin rhwng y byd hwn a'r Byd Arall ar ei theneuf. Y 'digwyddiad' yn y cyswllt hwn ydi fod ebolion newydd-eni gŵr o'r enw Teyrnnon (y ffurf wrywaidd sy'n cyfateb i 'Rhiannon') yn cael eu cipio bob nos Galan Mai. Y flwyddyn y cipir baban Rhiannon, penderfyna Teyrnnon gadw golwg ar ei gaseg a'r ebol y bydd yn ei fwrw. Y mae hyd yn oed yn dod â'r gaseg i mewn i'r tŷ. Genir yr ebol. Yna, clywir twrw enbyd a daw crafanc fawr drwy ffenestr y tŷ a gafael yn yr ebol. Y mae Teyrnnon yn ei thorri ymaith ac yn rhuthro allan. Wrth y drws y mae baban mewn llen o sidan: mab Rhiannon ydyw.

Y mae pwerau'r Arallfyd yn ceisio difetha teulu Rhiannon ac, o bosibl, fywyd newydd y creadur, sef y ceffyl, y mae iddi gysylltiad hen ag o.

'Dydi dial Annwn ddim yn peidio yma. Y mae'n codi ei ben eto yn nhrydedd gainc y Mabinogi, pan wneir ymgais arall i gipio mab Rhiannon, sef Pryderi, a'i chipio hi ei hun. Erbyn hyn y mae Pwyll wedi marw, ei fab wedi priodi un a chanddi'r enw anffansiol, Cigfa, ac y mae Rhiannon wedi priodi un o'r enw Manawydan. Y mae a wnelo Gorsedd Arberth unwaith eto â

dechrau'r ymyrraeth. Pan mae'r rhain ac eraill ar yr orsedd hon daw twrw a niwl, a dim ond hwy ill pedwar a adewir. Y mae pawb arall wedi diflannu, a'r preiddiau anifeiliaid.

Nid dyma'i diwedd hi. Un diwrnod y mae Pryderi a Manawydan allan yn hela, yn Arberth eto. Y mae rhai o'r cŵn yn mynd i berth ac y mae baedd claerwyn yn codi oddi yno. Dyma inni arwydd fod pwerau Annwn ar waith. Y mae hwn yn arwain y cŵn a Phryderi a Manawydan at gaer, lle na welsid caer cyn hynny. Y mae Pryderi, wyllt, yn mynnu mynd i mewn i'r gaer, yn cydio mewn cawg aur yno ac yn cael ei ddal yn sownd. 'Dydi Manawydan, gall, ddim yn mynd i mewn. Ymhen hir a hwyr y mae'n mynd yn ei ôl at Riannon a dweud y newydd wrthi. Dyma wraig sydd wedi colli'r mab hwn unwaith o'r blaen. Gan geryddu Manawydan am fod yn ffrind sâl y mae hi'n rhuthro allan ac i mewn i'r gaer a chydio yn y cawg. Mae hi a'i mab wedi eu dal, ac fe ddiflanna'r gaer. Y mae pwerau Annwn wedi trechu.

Ddim yn hollol, achos y mae yn y chwedl hon bry' go graff, sef Manawydan. Dyma olygfa ola'r ymrafael â phwerau Annwn. Y mae Manawydan a Chigfa ar ôl, a Manawydan wedi tyfu caeau o ŷd, ond y mae pla o lygod yn diffeithio ei ŷd. Dyma yntau'n gwylio ac, yn y man, yn dal un ohonyn' nhw. Y mae'n penderfynu ei chrogi hi. Crogi llygoden! Y mae Cigfa, sy'n dipyn o drwyn, yn gwaredu at y fath beth – gŵr o urddas Manawydan yn mynd i wneud peth mor anarferol â chrogi llygoden. Fe welwch fod y pwynt wedi ei wneud yn glir: wrth grogi llygoden fe fydd Manawydan yn gwneud gweithred groes i'r arfer – gweithred nid annhebyg i un Pwyll yn hel y cŵn dieithr oddi wrth y carw. Ond y mae Manawydan yn gwybod beth y mae'n ei wneud: y mae o'n herio Annwn. Y mae o'n ei osod ei hun yn yr ystad gydrhwng.

Y mae pwerau Annwn yn llyncu'r abwyd. Fel y mae Manawydan wrthi'n codi'r crocbren ar Orsedd Arberth pwy sy'n dod heibio ond clerigwr. A chyn hyn, 'dydi Manawydan heb weld neb ers saith mlynedd! Pwy sy'n cyfarch gyntaf? Y clerigwr. Y mae Manawydan ar ei fantais. Y mae hwn, fel Cigfa, yn ceisio'i ddarbwylllo rhag gwneud y fath beth iselwael. Sylwch ar y pwyslais ar ansyberwyd y weithred. Y mae'n cynnig tâl iddo am beidio, ac y mae Manawydan yn gwrthod. Fe eir drwy'r un drefn gydag offeiriad. Yna, daw esgob a'i osgordd heibio. Y tro hwn, Manawydan sy'n cyfarch gyntaf, ond sylwch beth y mae'n ei ddweud: 'Arglwydd esgob . . . dy fendith.'¹⁶ Y mae'n rhaid i hwnnw roi ei fendith, a

thrw y wneud hynny roi Manawydan mewn safle cadarnhaol. Os oes ar rywun eisiau gwers ar sut i lunio cytundeb dylai astudio'r rhan o'r stori sy'n dilyn, lle y mae Manawydan yn rhoi pwerau Annwn yn y fath gongl fel na allan' nhw ddim symud heb golli'r cyfan.

Yna, esbonnir inni mai gwraig yn rhith llygoden ydi'r un y mae Manawydan am ei chrogi, gwraig Llwyd fab Cil Coed, yr un sydd yno yn rhith esgob. Hwy sydd wedi rhithio Dyfed. Pam? I ddial cam Gwawl fab Clud, y gŵr o Annwn yr oedd Rhiannon i fod i'w briodi yn y gainc gyntaf. Y mae pwerau'r Byd Arall yn dal dig yn hir. Y mae'r gainc yn dangos sut y gall doethineb dynol a phwyll, a pheidio â rhuthro i bethau, orchfygu galluoedd Annwn. A ydi hyn yn awgrymu Cristion o chwedleuwr?

Ond ymhle y mae Annwn? Y mae Pwyll yn mynd yno o Lyn Cuch; y mae Gorsedd Arberth mewn rhyw gysylltiad cyfrin â'r lle; y mae'r rhith o gaer lle'r â'r baedd gwyn â rhyw gysylltiad ag Annwn hefyd. Y mae Annwn yn lle ond nid mewn un lle. Pe bai'r gair 'dimensiwn' yn bod mewn Cymraeg Canol fe allai'r chwedleuwr fod wedi dweud mai dimensiwn arall o ddirnad-aeth ydi Annwn. Ond y mae'r dimensiwn hwnnw fel pe bai ganddo gysylltiad agos â rhai mannau – Gorsedd Arberth, er enghraifft – ac ag adegau arbennig – nos Galan Mai, er enghraifft. Pa fannau eraill y mae gan Annwn ryw gysylltiad â nhw? Dyna inni'r bryn uwchben y môr yn Harlech, tua'r lle y mae'r castell heddiw. Fe gofia'r rhai sydd wedi darllen chwedl Branwen Ferch Llŷr fod ei brawd, Bendigeidfran, a llu Prydain wedi mynd i achub ei cham hi yn Iwerddon a bod brwydr enbyd wedi digwydd yno. Branwen, a saith gŵr o Brydain, a phen rhyfeddol Bendigeidfran yn unig sy'n dychwelyd i'r wlad hon o Iwerddon; ac y mae Branwen yn marw ym Môn. Y mae'r seithwyr a'r pen yn dod i Harlech ac yn gwledda yno, am saith mlynedd:

A chyn gynted ag y dechreuasant fwyta ac yfed fe ddaeth tri aderyn a dechrau canu rhyw gân iddynt. Ac yr oedd pob cân yr oeddynt erioed wedi ei chlywed yn ddiflas o'i chymharu â'r canu hwn. Ac yr oedd yn rhaid iddynt edrych allan ymhell uwchben y môr i weld yr adar; ac eto yr oeddynt mor eglur iddynt â phe baent yno gyda hwy.¹⁷

Dyma Adar Rhiannon, fel y nodwyd ynghynt yn y chwedl, adar y Byd Arall. Y mae'r saith mlynedd hyn yn amser o hapusrwydd

iddyn' nhw, er gwaethaf y gyflafan a fu. Dyma agwedd dirionach ar Annwn nag a gawsom yn y gainc gyntaf a'r drydedd o'r Mabinogi.

Fe all Iwerddon roi arweiniad inni ynglŷn â'r gorseddau, y bryniau yma a'u cysylltiad â'r Byd Arall. Yn ôl chwedlau mytholegol Iwerddon, fe ddaeth pobol o'r enw y Milesiaid yno, a phan ddaethant fe giliodd y bobol a oedd yn y wlad yn barod, y Tuatha De Danann (pobol y dduwies Dannan) i diriogaeth danddaearol. Un o'r enwau a roddid iddyn' nhw oedd 'aes sidhe', sef 'pobol y bryniau neu'r carneddau – pobol y gorseddau'. Felly, 'roedd yna Fyd Arall o dan y ddaear. Daeth yr 'aes sidhe' yn bobol hud a lledrith ac, yn y man, yn dylwyth teg mewn llên gwerin. Y mae'r stori am y saith mlynedd hudol yn Harlech yn atgoffa rhywun yn gryf o straeon gwerin am bobol yn mynd i gylchoedd hud y tylwyth teg, a meddwl eu bod wedi bod yno am chwarter awr, dyweder, pryd y maen' nhw, mewn gwirionedd, wedi bod yno am flynyddoedd.

Ynys yr Arallfyd

Ond heblaw am orseddau a mannau amhenodol, y mae'r Celtiaid wedi cysylltu'r Byd Arall ag un man pendant, sef yr ynys; neu'n gywirach, efallai, ynysoedd – ynysoedd tua'r gorllewin bron yn ddieithriad. 'Draw dros y don' y mae'r ynys hon, ac efallai y dylem ni gadw mewn cof mai dŵr ydi'r symbol mwyaf cyffredin o'r anwybod. Y mae yna enghraifft o'r ynys arallfydol yn y Mabinogi, eto yn chwedl Branwen. Ar ôl eu saith mlynedd yn Harlech y mae'r saith gŵr yn symud, fel y dywedwyd wrthynt, â'r pen i'w canlyn i Wales, ym Mhenfro.

Ac yno yr oedd lle teg, brenhinol iddynt uwchben y môr, sef neuadd fawr . . . Ac yr oeddynt yn gweld dau ddrws yn agored. 'Roedd trydydd drws yn gaead, yr hwn oedd tua Chernyw.¹⁸

Dyma'r drws na ddylid ei agor; a'r drws sydd yn cael ei agor yn y diwedd.

Sut fyd oedd hi arnyn' nhw yng Ngwales? Byd fel hyn:

Ac er cymaint a welsant o ofid yn eu gŵydd, ac er cymaint a gawsant eu hunain, ni ddôl i gof iddynt hwy ddim, nac o hynny nac o alar yn y byd.

Dyma felly Baradwys, a 'dydi hi ddim ymhell. Ynysig Grassholm ydi hi, yn ôl Ifor Williams. Y mae Sioned Davies yn cyfeirio at adroddiad rhyw Gapten John Evans ddiwedd y ganrif ddiwethaf sy'n sôn am: 'a large tract of land covered with a beautiful green meadow . . . a few feet below [the water] . . .'¹⁹ ger Grassholm. Sonia Sioned Davies, hefyd, am gred yn ardal Aberdaugleddau (1831) am: 'green Fairy Islands . . . a short distance from land; and the general belief was that they were densely populated with fairies'. Y mae Syr John Rhŷs yn cyfeirio at hen chwedl yn Nyfed fod lle unwaith rhwng Cemes ym Mhenfro ac Aberdaron yn Llŷn, a elwid yn 'Gwlad Rhys Dwfn', sef gwlad pobol fychain, rhyfeddol o dlws, y tylwyth teg.²⁰ 'Plant Rhys Ddwfn' oedd yr enw arnynt. Cynigiwyd mai plant yr Is Ddwfn, neu'r Isfyd, yw hyn neu blant Rhi yr Is Ddwfn, sef Brenin yr Isfyd neu Annwn oeddynt. A dyma ni efo syniad tebyg i'r un a geir yn Iwerddon, a hen fodau goruwchnaturiol Cymraeg yn troi'n dylwyth teg.

Dowch inni oedi am ychydig ar yr ynysoedd arallfydol hyn. Y mae yna lawer o chwedlau neu ddarnau o chwedlau am ynysoedd arallfydol yn llenyddiaeth gynnar Iwerddon, rhai ohonyn' nhw'n dwyn y teitl 'Imram', sef taith, ac eraill yn dwyn y teitl 'Echtra', sef antur, ac eraill yn dwyn amryfal deitlau. Mi fwriwn ni olwg brysiog ar ddarnau o rai o'r rhain.

Dyna inni, yn gyntaf, *Imram Brain mac Febel* ('Mordaith Brân fab Febel')²¹ y ceir testun ohoni'n perthyn i'r unfed ganrif ar ddeg. Yn y stori hon, daw gwraig o 'diroedd rhyfeddodau' a chanu cân i gymeriad o'r enw Brân. Y mae'r gân yn ei ysbrydoli i chwilio am y tir rhyfedd y daw hi ohono, sef Tir y Benywod – ac y mae'r teitl yna'n rhoi inni syniad rhai pobol am Baradwys! Dyma bytiau o'i chân:

Y mae yna ynys ymhell i ffwrdd
A chesyg y môr o'i chwmpas yn sgleinio;
Fordaith i ffwrdd dros y tonnau penwynion,
A phedair colofn sydd yna i'w chynnal hi . . .
Yno disgleiria lliwiau fyrdd o bob gwawr
Ar hyd y dolydd cyfarwydd a llyfn;
Yno mae llawenydd yn dragywydd, a miwsig
Ar y gwastad i'r De o Arcatnél . . .

Dim galar, dim tristwch, dim angau
Dim heintiau, dim dihoeni gan glwyfau:

Dyna, dyna ydyw nod amgen Emnae,
Nid yn amal y ceir rhyfeddod cyfartal.²²

Dyna inni wlad nid annhebyg i Wales, a dyna inni un o freuddwydion hen y ddynoliaeth. Ac y mae hi'n freuddwyd sy'n dal gyda ni; cofiwch y math o dystiolaeth a ddyfynnais i gan rai sydd wedi cael y profiad agos-at-farw.

I ffwrdd â Brân a'i griw. Ar ôl bod ar y môr am ddau ddydd a dwy nos y mae gŵr yn dynesu atynt ar gar (*chariot*) dros yr eigion. Dyma Manannán mab Ler, Brenin y Baradwys. Y mae yntau'n canu cân i'r morwyr, gan ddweud hyn am y môr:

Er mai un cerbydwr a weli
Ar y Maes Dymunol, aml ei flodau,
Ar ei fynwes y mae llaweroedd o feirch,
Ond meirch ydynt na welwch chwi.²³

Y Maes Dymunol ydi'r môr ac y mae arno fodau na all meidrolion eu gweld. Pwy ydyn' nhw? Fel hyn y mae Manannán yn eu disgrifio:

Yma'r ŷm ni er dechreuad y cread
Heb heneiddio, heb ball ar ireidd-der,
Nid ydym gan henaint yn cael ein gwanychu,
Nid yw pechod wedi dod atom ni.²⁴

Yna, â Manannán yn ei flaen i sôn am ddyfodiad Crist a dyfodiad ei fab ef ei hun Fíachna. Yn y man y mae Brân a'i griw yn cyrraedd Tir y Benwyod ac yn treulio amser dedwydd yno – glwth (soffa) i bob cwpwl, bwyd nad ydi o ddim yn mynd yn llai. Buont yno am flynyddoedd, er mai am flwyddyn yr oedden' nhw'n meddwl eu bod wedi aros yno.

Fe welir yn glir iawn mai'r hyn sydd gennym ni yma yw dychmygion paganaidd, Celtaidd am y Byd Arall, am Annwn, ond y maen' nhw wedi eu lliwio yma ac acw â dylanwadau Cristnogol – dyna yw'r cyfeiriad at ddyfodiad Crist.

Yr hyn a gawn ni'n digwydd wedyn ydi cymysgu go sownd o elfennau. Gellir eu nodi fel pedair elfen:

yn gyntaf, yr hen ddefnyddiau Celtaidd am ynys Arallfydol;
yn ail, dylanwadau Cristnogol;
yn drydydd, mordeithiau go-iawn;
yn bedwerydd, sôn am ryfeddodau.

Fe fydd bwrw golwg brysiog ar waith a elwir yn 'Mordaith Sant Brendan'²⁵ yn dangos inni beth y mae hyn yn ei olygu. Daw gŵr, Barrind, at Brendan i'w fynachlog, Clonfert, a dweud ei fod wedi darganfod yr Ynys Ddymunol. Penderfyna Brendan a chriw fynd i chwilio amdani, yr ynys hon a elwir bellach yn Ynys Addewid y Saint. Ar y môr mawr y maen' nhw yn gweld amrywiaeth o ynysoedd, er enghraifft Ynys y Gofaint. Gofaint drwg sydd ar hon, achos y maen' nhw'n taflu lymphiau llosg at Brendan a'i griw efo gefeiliau. Y mae'r gofaint yn debyg o fod yn rhan o hen fyd y Celtiaid lle'r oedd i ofaint bwysigrwydd mawr. Ond o'u gweld nhw, hyn sydd gan Brendan i'w ddweud: 'Filwyr Crist . . . rydym ni ar ffiniau uffern'.²⁶ Y mae hen syniad Celtaidd, elfen un uchod, wedi cael ei ddylanwadu gan elfen dau, credoau Cristnogol.

Mewn man arall y mae Brendan a'i griw'n dod at golofn o risial. Y maen' nhw'n penderfynu mesur y golofn hon: 'Roedd mesuriadau pob un o bedair ochor y golofn yr un fath, yn saith gan llath'.²⁷ Fe welwch beth sydd yma, ynys iâ (*iceberg*), wedi ei disgrifio gyda thipyn o ddychymyg. Hynny ydi, y mae olion taith go-iawn ar fôr yn y chwedl hon, sef elfen tri. Dylid ychwanegu fod nifer o ysgolheigion a chrancod wedi ceisio adnabod lleoedd go-iawn o ddisgrifiadau a geir yn y fordaith hon. Y mae rhai wedi awgrymu i Brendan, neu rywun, gyrraedd India'r Gorllewin neu hyd yn oed America.

Y mae yna un elfen ar ôl, sef y bedwaredd: rhyfeddodau. Drwy'r oesoedd y mae teithwyr wedi dod yn eu holau gyda hanesion am ryfeddodau. Hawdd deall hynny. Meddyliwch pe baech chwi'n mynd ar daith saith gan mlynedd yn ôl ac yn gweld camel neu jiraff ac yn dod adref a cheisio'i ddisgrifio! Fe fyddai'r naill a'r llall yn troi'n rhyfeddod. Y mae yna bethau nid annhebyg i hyn ym mordaith Brendan. Dyma un. Y mae Brendan a'i griw'n glanio ar ynys ac yn cynnau tân yno: 'Ond pan oedden' nhw'n rhoi coed ar y tân, a phan oedd y crochan yn berwi, dechreuodd yr ynys symud fel ton'.²⁸ Dyma'r brodyr yn rhuthro i'w cwch: 'Yna dechreuodd yr ynys symud allan i'r môr. Gallent weld y tân ddwy filltir i ffwrdd.' Yna y mae Brendan yn ei gweld hi, ac yn esbonio pethau:

Fy meibion, peidiwch ag ofni. Yn ystod y nos dangosodd Duw i mi, mewn gweledigaeth, gyfrinach y mater hwn. Y lle yr oeddem ni, nid ynys oedd hi ond pysgodyn – y mwyaf o'r holl bethau sy'n nofio yn yr eigion . . . Ei enw yw Jasconius. (t.19)

Fel y mae'n digwydd, y mae darn o'r triawd ffilmiau *Rhyfel y Sêr* (*Star Wars*), sef *Yr Ymerodraeth yn Taro'n Ôl* (*The Empire Strikes Back*), yn cynnwys rhyfeddod union gyfatebol i hwn. Y mae Han Solo a'i gymrodyr yn dianc rhag ei elynion trwy fynd i hafnau enfawr mewn planed. Yn y man y maen' nhw'n sylweddoli eu bod nhw yng nghrombil anghenfil enfawr.²⁹

Dyna inni gip ar Fyd Arall yr ynys yn llenyddiaeth Iwerddon. Ond gennym ni, Gymry, y mae'r ynys Arallfydol enwocaf un, Afallon. Y mae gennym ni Wales yn y Pedair Cainc. Y mae gennym ni, hefyd, hen gerdd Gymraeg o'r enw 'Preiddiau Annwn' (Ysbeiliau Annwn).³⁰ Cerdd ydi hi a dadogwyd ar Daliesin – y Taliesin chwedlonol, fel y'i gelwir. Y mae hi'n gerdd anodd iawn ei deall ac y mae ystyron rhai geiriau'n dra aneongladwy. Ond y mae rhai pethau yn y gerdd yn weddol glir, sef bod rhannau ohoni hi'n sôn am Arthur yn mynd i Annwn. Fe â nifer o'i filwyr yno gyda'r brenin Arthur yn ei long Prydwen – felly y mae Annwn yma'n ynys. Cyfeirir at wahanol bethau sydd, hyd y gellir gweld, i'w cael yn Annwn a dywedir mai dim ond saith a ddaeth yn eu holau oddi yno:

nam seith ny dyrreith o gaer sidi.

(ar wahân i saith ni ddaeth neb o Gaer Siddi)

Digwydd y geiriau hyn chwe gwaith yn y gerdd. 'Caer Siddi' yw'r enw am Annwn a geir yn y llinell hon. Dyma enwau eraill, neu ddisgrifiadau eraill a geir yng nghorff y gerdd; enwau a disgrifiadau o Annwn, yn ôl pob golwg:

caer vedwit, sef caer y wledd o fedd, neu gaer feddwdod;
caer rigor, sef, o bosibl, anodd ymwneud â hi;
caer wydyr;
caer golud neu goludd (goludd ydi rhwystr neu canol, perfedd);
caer fandwy neu fanddwy, gair a all olygu 'lloches';
caer ochren, gair a all olygu 'ochor'.

Sonnir am rai o ryfeddodau Annwn, megis Pair Pen Annwfn. 'Roedd o'n bair ac iddo ymyl tywyll a pherlau arno. Ag anadl naw morwyn y cyneuid ef, ac ni ferwai fwyd i berson llwfr. Ymddengys fod yng Nghaer Siddi hefyd garcharor, sef Gweir. Pwy oedd hwnnw? Ar ddiwedd stori Manawydan yn y Mabinogi, dywedir bod stori carcharu Rhiannon a Phryderi yn Annwn yn

cael ei galw yn 'Mabinogi Mynweir a Mynordd'. Awgrymir yn y gerdd hon mai teitl y stori am garcharu Gweir ydi 'ebostol (neu stori) Pwyll a Phryderi'. Parodd hyn i W. J. Gruffydd awgrymu mai Pryderi (dan ei enw Gwri Wallt Euryn) oedd y Gweir hwn.³¹ Y mae hyn'na'n ddiddorol, ond yn ddyfalu. 'Roedd y Gweir hwn yn un o'r carcharorion enwog y mae cyfeirio atyn' nhw mewn hen chwedlau Cymraeg.³²

Dyma inni hen, hen elfennau Celtaidd. Ond, yma eto, ceir peth defnydd Cristnogol. Ynghanol y-baganiaeth hon beth a gawn ni ond:

A rac drws vffern llugyrn lloscit

(ac o flaen porth uffern mae llusernau'n llosgi)

Y mae Annwn ac Uffern yn cael eu gweld fel yr un lle yn y gerdd hon.

Yn 'Preiddiau Annwn' ceir rhyw fath o gyswllt rhwng Arthur ac Ynys y Byd Arall. Fe ddatblygodd amryw chwedlau eraill am Arthur. Un ohonyn' nhw oedd na fu iddo farw, a'i fod am ddod yn ei ôl i achub ei genedl. Nid efô oedd yr unig un y cafwyd stori fel hon amdano, gyda llaw, ffaith sy'n dweud llawer am feddylfryd y Cymry – eu bod nhw'n mynnu chwilio yn y gorffennol yn hytrach na'r dyfodol am arwr. Os ydi Arthur i ddychwelyd, yna rhesymol tybio nad ydi o wedi marw; 'does ganddo fo ddim bedd. Felly 'Anoeth byd, bedd i Arthur.'³³ Ar y naill law, y mae gennym ni stori am Arthur ac ynys arallfydol. Ar y llaw arall, y mae gennym ni gred nad ydi o ddim wedi marw a'i fod o i ddychwelyd eto. Dyma'r ddeubeth at ei gilydd, ar lafar efallai, ond yn sicr yn nychymyg Sieffre o Fynwy. Enw'r ynys ganddo fo oedd *Insula Pomorum* (Ynys yr Afalau)³⁴ – am fod i afalau hen gyswllt â'r Byd Arall; dyma ffrwythau'r Gangen Arian, dyma ffrwythau'r Hesperides, a fyddai'n agor drysau paradwys, dyma ffrwythau'r dduwies Freia a symbolau anfarwoldeb. Yr afallen oedd coeden Apollo ac yr oedd hi'n gysylltiedig ag iechyd ac anfarwoldeb. Dyma *Insula Pomorum* yn rhoi Ynys Afallach ac Afallon. Ac wedyn, wedyn y mae Afallon yn meddiannu dychymyg y byd. Y mae Annwn, y mae Afallon ar ryw ffurfiau gyda ni o hyd am nad ydyn' nhw ddim allan yn unlle ond o'n mewn ni: y maen' nhw'n rhan o'n taith barhaol ni i geisio dod i'n hadnabod ein hunain.

Nodiadau

1. M. B. Sabom, *Recollections of Death* (Corgi Books, 1982), 52.
2. Ibid., 61.
3. Ibid., 61.
4. Ibid., 69.
5. Ibid., 72.
6. J. J. Tierney, 'The Celtic Ethnography of Posidonius', *Proceedings of the Irish Academy*, 60, (1959–60), 270. Dyfynnu o *De Bello Gallico* ('Ynglŷn â'r Rhyfel yng Ngâl'), VI, 14.
7. Lucan, *Pharsalia*, 1.441 et seq.
8. Alwyn a Brinley Rees, *Celtic Heritage* (London, 1961), 230: 'a doctrine that there is essentially only One Transmigrant'.
9. Ibid., 333.
10. *The Collected Works of Jung* (London, 1977), Cyf. 18, 119.
11. *Aeneid*, VI, llau. 236–41.
12. Maartje Draak, 'The Religion of the Celts', yn C. Jouco Bleaker a Geo Widengren, *Historia Religionum*, 1 (Leiden, 1969), tt.3, 640.
13. Ifor Williams (gol.), *Pedeir Keinc y Mabinogi* (Caerdydd, 1930, ail arg., 1951), 73. Er mwyn hwylustod, 'rwyf wedi diweddarau'r orgraff wrth ddyfynnu o'r gyfrol hon.
14. Ibid., y mae'r dyfyniad hwn a'r rhai sy'n dilyn ar dudalennau 1–4.
15. Ibid., 9. Y mae'r hanes y cyfeirir ato ar dudalennau 9–13.
16. Ibid., 63. Y mae'r rhan o'r chwedl y cyfeirir ati yma ar dudalennau 61–5.
17. Ibid., 46. Y mae'r chwedl gyfan ar dudalennau 29–48.
18. Ibid. Y mae'r rhan o'r chwedl a drafodir yma ar dudalennau 46–7.
19. Sioned Davies, *The Four Branches of the Mabinogi* (Llandysul, 1993), 54. Y mae'r dyfyniad nesaf ar yr un dudalen.
20. John Rhŷs, *Celtic Folklore*, I (Oxford, 1903), 158–60.
21. Seamus Mac Mathúna (gol.), *Immram Brain* (Tübingen, 1985).
22. Ibid., t.34, pennill 4 ac 8; t.35, pennill 10. 'Arcatnél' yw 'Dôl y Cwmwl Arian'.
23. Ibid., t.40, pennill 39.
24. Ibid., t.40, pennill 44.
25. John J. O'Meara, *The Voyage of Saint Brendan* (The Dolmen Press, N. America: Humanities Press Inc., 1976, 1978).
26. Ibid., 54.
27. Ibid., 51.
28. Ibid., Adran 10, 18–19.
29. Ond cafwyd syrffed ar y math hwn o weledigaethau o fydoedd eraill, ac yna cafwyd parodiau arnynt. Y mae 'Aislinge Meic Conglinne' ('Breuddwyd mab Conglinne') – gw. Kuno Meyer, *The Vision of Mac Conglinne* (London, 1892) yn enghraifft o hynny. Yn y chwedl hon, y mae creadur anhygoel o fwytéig yn cael gweledigaeth o fyd sydd mor llawn bwyta nes ei fod o'n cael tröedigaeth. Dyma bwt o'r stori:

Yna gwelais y porthor. Teg oedd golwg y gŵr; a'i enw oedd Bachgen-Bacwn, fab Bachgen-Menyn, fab Braster. 'Roedd sandalau llyfnion o hen gig moch am ei draed, ac yr oedd ganddo legins o gig-cadw am ei fferrau; a gwisg o gorn-bîff, a gwregys o groen samon amdano, a choron o fenyn am ei ben . . .

Ac ymlaen.

30. J. Gwenogvryn Evans (gol.), *The Text of the Book of Taliesin* (Llanbedrog, 1910), 54–6. Gweler Marged Haycock, "'Preiddeu Annwn" and the figure of Taliesin', *Studia Celtica*, 18–19, (1983–4), 60 et seq.
31. W. J. Gruffydd, *Rhiannon* (Cardiff, 1953), 91.
32. Gweler Rachel Bromwich, *Trioedd Ynys Prydein* (Caerdydd, 1978), Triawd 52: Tri Goruchel Garcharor Ynys Brydain: Llŷr Llediaith; Mabon fab Modron; ac Arthur.
33. A. O. H. Jarman (gol.), *Llyfr Du Caerfyrddin*, c. 1250 (Caerdydd, 1982), 18, 135.
34. Basil Clarke (gol.), *Life of Merlin: Geoffrey of Monmouth* (Cardiff, 1973), 100–3.